# Cŵn yn cyfarth yn Sir Gaerfyrddin

**Cwynion sŵn yn ymwneud â chŵn yn cyfarth yw'r gwyn sŵn fwyaf cyffredin o bell ffordd a ddebynnir gan yr Awdurdod Lleol.**

**Rydym yn deall fod cyfarth yn beth naturiol a greddfol i gŵn ei wneud ond pan fyddant yn cyfarth yn ormodol, er enghraifft am gyfnodau hir ac yn aml, gall hyn darfu ar eich cymdogion ac mewn rhai achosion caiff ei ystyried yn niwsans statudol o dan adran 79 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.**

**Pwrpas y daflen hon yw rhoi rhai cynghorion buddiol ichi i geisio stopio eich ci rhag cyfarth gormod.**

## Clywed bod eich ci yn cyfarth gormod:

**Rydym yn sylweddoli efallai eich bod yn grac a/neu'n ypset pan fyddwch yn clywed i ddechrau fod cwyn wedi'i gwneud mewn perthynas â'ch ci yn cyfarth gormod. Mae'n bosibl y cewch wybod am y gŵyn gan eich cymydog a/neu'r Awdurdod Lleol. Efallai mai hwn fydd y tro cyntaf y byddwch yn ymwybodol bod eich ci yn cyfarth gormod felly ceisiwch beidio â chynhyrfu os bydd hyn yn digwydd. Ceisiwch ystyried y sefyllfa o safbwynt yr achwynydd.**

**Mae'n bwysig deall pam a phryd mae'ch ci yn cyfarth er mwyn llwyddo i'w stopio rhag cyfarth yn ormodol. Isod ceir enghreifftiau o gamau gweithredu a allai helpu i stopio'ch ci rhag cyfarth yn ormodol.**

### Camau i'w cymryd ar unwiath:

- Cadwch eich ci dan do pan fyddwch allan o'r tŷ
- Arhoswch gyda'ch ci pan fyddwch chi'n ei adael y tu allan.
- Ceisiwch gyfyngu ar yr hyn mae'ch ci'n ei weld a allai fod yn achosi iddo gyfarth e.e. pobl yn pasio'r ardd neu'r ffenestr.
- Os yw'r ci yn cyfarth ar adegau penodol o'r dydd, er enghraifft, pan fydd y plant yn mynd i'r ysgol, pan fydd rhywun yn gadael y tŷ, pan fydd y postmon yn cyrraedd, ceisiwch dynnu sylw eich ci, er enghraifft, trwy fynd ag ef am dro.
- Sicrhewch fod y ci'n cael digon o ymarfer corff.
- Gofynnwch i rywun megis perthynas neu ffrind ofalu am y ci neu ymweld ag ef pan fyddwch i ffwrdd o'r tŷ.
- Os yw eich ci'n cyfarth wrth iddo gyffroi, er enghraifft, pan fyddwch yn chwarae ag ef, sicrhewch fod hyn yn digwydd yn ystod y dydd ac am gyfnodau byr yn unig.
- Galwch y ci i'r tŷ ar unwaith pan fydd yn dechrau cyfarth y tu allan.

### Camau ar gyfer ateb hirdymor:

- Gofynnwch am gyngor gan ymddygiadwr anifeiliaid, milfeddyg neu warden cŵn.
- Os yw eich ci yn dawel, gallwch roi trît iddo, er enghraifft. Os yw eich ci yn cyfarth, dywedwch wrtho'n gadarn am fod yn dawel. Peidiwch â chosbi'r ci oherwydd gallai'r ci ystyried hyn fel rhoi sylw iddo ac felly yn ffordd o wobrwyo'r ymddygiad.
- Gadewch deganau a phethau i'w cnoi i ddiddanu'r ci.
- Gadewch y radio neu'r teledu arno yn isel fel cwmni i'r ci.
- Os yw eich ci'n cyfarth i amddiffyn ei diriogaeth, cadwch y ci o'r llefydd lle gall weld neu glywed pobl a/neu anifeiliaid eraill. Cuddiwch y llefydd hyn, er enghraifft, drwy osod pren dros gatiau i rwystro'r hyn y gall y ci ei weld.
- Os yw eich ci'n cyfarth er mwyn cael sylw, ewch ati'n bwrpasol i'w anwybyddu am adeg fyr. Yn ogystal gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn cyn ichi adael y tŷ er mwyn stopio'r ci rhag cyfarth pan fyddwch yn gadael.
- Ystyriwch am ddefnyddio camera monitro anifeiliaid anwes.

Mae cŵn yn cyfarth yn ormodol am reswm, un ai oherwydd eu bod yn unig, wedi diflasu, angen sylw neu ymarfer corff. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r broblem hon mor gynnar â phosibl er mwyn sicrhau nad yw'n dod yn arferiad.

***Yn ogystal mae'n bwysig stopio'r ci rhag cyfarth yn ormodol er mwyn lleihau tarfu ar eich cymdogion ac er mwyn atal yr Awdurdod Lleol rhag cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.***



Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor ar y mater mae croeso i chi gysylltu â ni yn yr adran Diogelu'r Amgylchedd ar:


**01267 234567**

**diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk**

**Tŷ Parcyrhun, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3FB**